

# G.G. EVANS yn holi PAM WARRINGTON?

Ni cheffais ateb ond wrth chwilio dysgais fod i Warrington fry academaidd ac argraffyddol. Y cwestiwn ydoedd sut y bu mai yn y dref honno yr argraffwyd dau o weithiau Elis Roberts, Cowper o Llanddoged ger Llanrwst. Y cyntaf ydoedd ei anterliwt *Gras a Natur* a argraffwyd yn 1767 a'r ail *Llythyr at bob Cymro Ewellysgar a garo ffyrdd y gwirionedd*. . . Argraffwyd y ddau gan William Eyres 'Tros Moses Evans o Llanddoged yn agos i Llanrwst'. Chwe cheiniog ydoedd pris y llyfr anterliwt a'r Llythyr yn dair ceiniog. Cawn sôn am yr argraffwyd William Eyres ymhellach ymlaen.

Nid oes amheuaeth nad oedd y Llythyr yn llwyddiant masnachol canys aeth y llythyrwr ati i gyfansoddi wyth llythyr arall rhwng 1771 a 1788. Bu ail-argraffiadau o rai ohonynt ac fe ymddangosodd y naw ynghyd bum mlynedd wedi iddo farw. Nid awdur yn ysgrifennu am ddim ydoedd Elisa Gowper.

Pan gyhoeddid llyfrynau fel y Llythyr ac, yn llawer mwy niferus, lyfrau baledi, y drefn arferol ydoedd i werthwr teithiol ymgymryd â chael argraffwr. Dyna arwyddocad 'Tros' ar ôl enw'r wasg. Ni wn beth ydoedd y trefniant ariannol rhwng awdur, gwerthwr ac argraffwr

ond teg tybio bod y tri'n credu y byddent ar eu hennill. Mae 'Tros' yn britho teitlau'r baledi a restrir yn *Bibliography of Welsh Ballads* gan J. H. Davies (cyhoeddwyd 1911 gan y Cymmrodorion) allan o weisg Caer a'r Amwythig. Yn ddiweddarach yn y ganrif, pan argreffid baledi yng Nghymru, nid yw'r 'Tros' mor fynych. Gwir hyn am faledi'r Cowper a argraffwyd gan ei gydnabod Dafydd Jones yr ochr draw i Afon Gonwy yn Nhrefriw. Cyflwynai'r dyn nodedig hwn ei hun fel 'Argraffwr a Llyfrwerthwr'.

Pe gwyddem fwy am y cymydog a'r gwerthwr Morgan/Moses Evans (weithiau Evan) byddem yn nes i ateb y cwestiwn. Ni ddigwydd ei enw ynghlwm wrth unrhyw faledi restrir gan J. H. Davies. Gwahanol iawn i werthwr arall a'i enw'n gysylltiedig â thuag ugain o lyfrynau'n cynnwys baledi gan y Cowper; cyfeiriai at Evan Ellis o Lanfihangel Glyn Myfyr ac weithiau 'o bob man' y mae erthygl ddiddorol amdano gan A. Cynfael Lake yn *Y Traethodydd* (Hydref 1989). Ai cyfarfod a wnaeth Evans â gwerthwr o Warrington mewn tafarn yng Nghaer a chael ei berswadio i argraffu yn y dref

hono? Neu a oedd ganddo gysylltiad enwadol â Warrington?

Yr argraffwr yn y dref honno ydoedd William Eyres, yn berchennog ar wasg a fu yn y teulu o leiaf o ddechrau'r ganrif pan oedd H. Eires (*sic*) yn argraffu. O'r wasg hon, fel o'r gweisg yng Nghaer a'r Amwythig a ddefnyddiai'r Cymry, ymddangosai mân lyfrynau a elwir yn Saesneg yn *chapbooks*. Gwerthid hwy hyd y wlad gan werthwyr pedleraidd. Ond ni chyfyngodd William Eyres ei wasg i ddarparu llyfrau digon distadl. Roedd yn uchelgeisiol. Dechreuodd wythnosolyn, *Eyres' Weekly Journal or Warrington Advertiser*. Methiant fu. Ond mewn cyfeiriad arall, mwy uchelgeisiol, bu'n neilltuo o lywddiannus, sef cyhoeddi llyfrau sylweddol. Ymhlith y cyntaf o'r fath ydoedd *Elements of English Grammar* o waith yr enwog Joseph Priestley yn 1760. Parhaodd y gwyddonydd hwn i ddefnyddio'r wasg; William Eyres a argraffodd ei bedair cyfrol ar Hanes Trydan. Ymddangosodd llu o lyfrau o safon gyffelyb o'r wasg yn Warrington, er enghraifft, testunau Lladin clasurol gyda chyfieithiadau. O ddiddordeb i ni yw mai at William Eyres yr aeth Thomas Pennant gyda'i lyfr

ar hanes ei deithiau i Ogledd Cymru (1771) ac yn ddiweddarach gyda'i bedair cyfrol ar Swoleg Prydain (1776 ymlaen). Dylid nodi nad enw Eyres sydd ar rai o gyhoeddiadau sylweddol gwag Warrington ond enw gwag yn Llundain; mae'r rheswm marchnadol yn amlwg ddigon.

Yn yr un cyfnod gallasai Warrington nid yn unig ymfalchïo bod yno wasg flaelllaw ond hefyd yn yr Academi Ymneilltuo a sefydlwyd yno yn 1756. Byr fu ei pharhad ond cyrhaeddodd safon uchel yn ei hyfforddiant academig. Cofnodir, er enghraifft, mai'r hyn a ddisgwyld ar ddiwedd un cwrs ydoedd i'r myfyrwr allu cyfieithu *Cicero* ar lafar, darllen Hebraeg, cyfieithu o'r Testament Groeg i'r Lladin, dangos gwybodaeth o'r gwyddoniaethau, cyflwyno traethawd ar bwnc gosodedig mewn Lladin a thraddodi pregeth. Yn gysylltiedig â'r Academi roedd James Priestley, gw'r a ystyriai'i hun yn weinidog Presbyteraidd yn hytrach na gwyddonydd. Deuai'r myfyrwr o blith llu o ddynion galluog y gwrthodid addysg iddynt ym mhrifysgolion Lloegr oherwydd nad oeddynt yn aelodau o'r Eglwys Sefydledig. Cefndir addysgol yr athrawon ydoedd prifysgolion yr Alban a'r Cyfandir. Nid haerid di-sail ar ran Warrington yw iddi ar ddiwedd y ddeunawfed ganrif bron â bod yn dref brifysgol gyda gwag brifysgol.

Ni chafwyd ateb i'r cwestiwn. Sut y digwyddodd i anterliwt a Llythyr y Cowper afrywiog o Landdoged ddyfod o'r un wasg â chyfrolau safonol awduron fel Joseph Priestley a Thomas Pennant?

(Ceir hanes yr Academi a Gwasg Eyres mewn dau lyfr gan P. O'Brien, MD, a gyhoeddwyd gan Owl Press (Wigan): *Warrington Academy 1756-1786* (1989); *Eyres Press 1756-1803: An Embryo University Press* (1993).

## UN LLYFR — DAU DDIWYG

YMDDANGOSODD *Flores poetarum Britannicorum sef blodeuog waith y prydyddion Bryttanaidd. O gasgliad J.D. . . .* o wasg T. Jones dros D. Lewis, Amwythig, yn 1710. John Davies Mallwyd yw'r J.D. a Dafydd Lewis, Llanllawddog a Llangatwg, awdur *Golgwg ar y Byd* (1725) yw'r cyhoeddwr yr argraffodd Thomas Jones yr almanaciwr drosto. Er hynny, ymddengys mai Iaco ab Dewi oedd y gwir olygydd ac mai paratoi'r llyfr ar gyfer ei argraffu yn unig a wnaeth Dafydd Lewis, yn ôl ymdriniaeth y diweddar Garfield Hughes yn ei astudiaeth o Iaco ab Dewi. Pwy bynnag oedd y golygydd gwelodd yn dda i ychwanegu deunydd at y llyfryn gwreiddiol, gan gynnwys copi o *Lyfr Barddoniaeth William Middleton*.

Cafwyd tri argraffiad o'r *Flores* yn y ganrif ddiwethaf, un yn 'argraph-dy Seren Gomer' yn Abertawe gan D. Jenkin yn 1814, a'r ddau arall o fewn tair blynedd i'w gilydd yn 1864 ac 1867. Gwilym Cowlyd a gyhoeddodd argraffiad 1867, gyda rhagor o ychwanegiadau ac atodiad, yn llyfryn bach clawr papur (melyn llachar) mewn teip

a welsai ddyddiau gwell a gydag incio go anwastad. Gwahanol iawn yw argraffiad 1864. Robert Jones, y llyfrbryf a'r casglwr, ficer eglwys All Saints, Rotherhithe yn nwyrain Llundain, oedd golygydd hwn, llyfryn wedi'i argraffu'n lân ac yn chwaethus ac wedi'i rwymo'n gadarn mewn cloriau lliain. Cyflwynwyd yr argraffiad i'r Tywysog Louis Lucien Bonaparte, 'un o brif ieithyddion yr oes, a noddwr gwresog llenyddiaeth y Cymry', fel y dywedir yn ddigon cywir yn y cyflwyniad ac efallai bod hynny'n esbonio amgylchiadau'r cyhoeddi. Yr oedd y Tywysog, a oedd yn gyfaill personol i Robert Jones, yn un o gasglwyr llyfrau pwysicaf ei ddydd ac yn ddigon cyfoethog i beri argraffu llyfrau a phamffledi yn ei dŷ ei hun yn Bayswater, Llundain, er mwyn rhannu copïau ymhlith ei gyfeillion. 'Yn mhersondy "All Saints", Rotherhithe, neu fel y nododd ef yn ysmala 'Rhudd-ddwr-hydd', dro y Parchg. Robert Jones yr argraffwyd *Flores* 1864, fel yr argraffai'r Tywysog yn ei dŷ yntau, ac yn null y Tywysog paratowyd ychydig o gopïau arbennig. Wn i ddim pa nifer o gopïau cyffredin a wnaed

ond cafwyd ychydig o rai arbennig:

*I hereby certify that twelve copies only of this book were printed on toned paper, one of which, ornamented with a blue border, is unique, and is the property of His Highness, Prince Louis Lucien Bonaparte.*


*Rotherhithe August 1864*

C. S. Smith

Mae'r copi unigryw hwnnw yn llyfrgell y Tywysog yn Llyfrgell Newberry yn Chicago, ac un arall o'r deuddeg yn llyfrgell Robert Jones yn Abertawe, ond ble tybed mae'r gweddill?

Honnai Gwilym Cowlyd a Robert Jones eu bod ill dau'n cyhoeddi adargraffiadau manwl o gopïau o'r gwreiddiol a oedd yn eu mediant (mae copi Robert Jones yn ei lyfrgell yn Abertawe), ond mae'n debyg mai Robert Jones a gadwodd agosaf at ei gopi. Mae'r gwahaniaeth yn ansawdd argraffu ac atgynhyrchu'r ddau lyfr yn arwydd eglur iawn o'r gwahaniaeth rhwng cynhyrchu llyfrau mewn cymdeithas wledig dlawd a dinas a thref lle nad oedd prinder adnoddau.

B.F.R.



**Gwasg Gwynedd**  
Cibyn, Caernarfon  
Gwynedd  
**Argraffwyr a Chyhoeddwyr**  
Ffôn: (01286) 674486